

## **Starless and Bible Black**

### **Rhaglen Ryngwladol 2014**

#### **Canada**

##### **Mawrth**

Mae British Council Cymru a Llenyddiaeth Cymru wedi cydweithio i ddatblygu a sefydlu rhaglen hirdymor o gynrychioli a hyrwyddo rhyngwladol, er mwyn rhoi llwyfan i lenyddiaeth Cymru yng Nghanada ac yng Nghymru, gan ddefnyddio Gwyliau Dinefwr a March Hare fel cyfleoedd i ddarganfod gwaith Dylan Thomas yn ogystal ag ysbrydoli gwaith newydd.

##### **Yr Ariannin**

##### **Mai**

Bydd digwyddiad yn cynnwys ysgrifennu Cymreig cyfoes gan Owen Martell a cherddoriaeth gan fand gwerin Cymreig Fernhill a gaeodd Wyl Lyfrau Buenos Aires yn swyddogol - y digwyddiad llenyddol mwyaf yn Ne America, sy'n denu dros filiwn o ymwelwyr. Aeth Owen a Fernhill â'u gwaith i Batagonia hefyd.

##### **UDA**

##### **Mai**

Cydweithiodd Llenyddiaeth Cymru a'r British Council â Gŵyl Llenyddiaeth Ryngwladol Lleisiau'r Byd PEN yn Efrog Newydd i ddod â 'Dylan Live' i Efrog Newydd. Perfformiad dwyieithog 60 munud o hyd yw hwn, sy'n olrhain tarddiad hip hop yn ôl i ymweliad Cymro ifanc ag Efrog Newydd yn 1952. Ymunodd Paul Muldoon â'r digwyddiad a thalodd ei deyrnged unigryw ei hun i Dylan.

##### **Mehefin**

Mae'r cyfansoddwr Prydeinig Pete M Wyer wedi datblygu trefniant corawl i gerdd Dylan Thomas "And death Shall Have No Dominion" drwy ddefnyddio côr 'vocamotive' - sef grŵp o gantorion a fydd yn canu wrth gerdded drwy Manhattan, a fydd yn cael eu cysoni drwy glustffonau. Drwy gydweithio â Gŵyl River to River a Make Music New York, dangosir y gwaith am y tro cyntaf yn Efrog Newydd ar Fehefin 21.

##### **Awstralia**

##### **Gorffennaf**

Bydd British Council Wales yn cyflwyno 'Adventures in the Skin Trade' gan Theatr Iolo, wedi'i addasu gan Lucy Gough, yn Nhŷ Opera Sydney ac yng Nghanolfan Gelfyddydau Melbourne. Hwn fydd y tro cyntaf erioed i gwmni theatr o Gymru berfformio yn y Tŷ Opera.

##### **Awst**

Bydd Melbourne Writers Festival, 21 – 31 Awst yn canolbwyntio ar Dylan Thomas ac ysgrifennu a cherddoriaeth Gymreig gyfoes, gan gynnwys cydweithrediadau gan Richard James, Gareth Bonello, John Williams a Rachel Tresize ar y cyd ag artistiaid o Awstralia.

## **India**

## **Hydref**

I ddathlu canmlwyddiant geni Dylan Thomas bydd British Council Wales a Chelfyddydau Rhyngwladol Cymru yn cefnogi cyfres o deithiau cyfnewid beirdd rhwng Cymru ac India.

Bydd y teithiau cyfnewid hyn yn defnyddio barddoniaeth Dylan Thomas fel ysbrydoliaeth i ddatblygu cydweithrediadau newydd a'u harddangos mewn nifer o deithiau o amgylch y DU ac India rhwng mis Hydref a mis Ionawr.